**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol**

**Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Iau, 9 Hydref 2025**

**Canolfan Tywi, Llandeilo - 4pm**

**Yn Bresennol:** **Aelodau:**

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL) - Dirprwy Gadeirydd
Sean Brown (SB)
Jillie Gardner (JG)
Peter Griffiths (PG)
David Gravelle (DG)
Julie James (JJ)
Julie Sweet (JS)
Laura Grant (LG)
Sandra Downey (SD)
Phil Snaith (PS)

**Ysgrifennydd** - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd:**
Alex Morgan (AM) – Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin
Phillip Morgan (PM) - Arweinydd Tîm CNC - Rheoli Tir y De-orllewin
Staci Sylvan (SS) – Gwirfoddolwr Mynediad a Llwybrau Ceffylau Sir Gaerfyrddin, Cymdeithas Ceffylau Prydain

**Ymddiheuriadau:** **Aelodau**:
Karen Burch (KB)

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion:**
Christopher Nelson (CN) - Rheolwr Asedau Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen (AVO) - Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd
Cynghorydd Edward Thomas (ET) – Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros y Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyngor Sir Caerfyrddin
Mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy

Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae CAMS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad (meddalwedd mapio GIS)
Mae BHS yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gymdeithas Geffylau Prydain

| EITEM | CAMAU GWEITHREDU |
| --- | --- |
| **Eitem 1 - CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd CF y fforwm a darllenodd yr ymddiheuriadau.<br><br>Nododd MH siom o ran cynrychiolwyr CSC.<br><br>Gwahoddwyd SS (sylwedydd) i gyflwyno ei hun a'i rôl/diddordebau mewn mynediad. | |
| **Eitem 2 – CYFLWYNIADAU RHEOLI MYNEDIAD CNC**<br><br>Cyflwynodd PM ei hun i aelodau'r fforwm, rhoddodd wybodaeth gefndir am CNC fel sefydliad, ei swyddogaethau allweddol, ei strategaethau, ei bolisïau a'i gynlluniau.<br><br>Rhoddodd grynodeb o'r mynediad a ddarperir gan CNC, sut mae'n cael ei hyrwyddo a sut mae'r cyhoedd yn cael gwybodaeth.<br><br>Rhoddwyd amlinelliad o'r heriau a wynebir wrth reoli mynediad ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.<br><br>Darparwyd manylion am sut mae stormydd y llynedd wedi effeithio ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru - maint y difrod, ymateb i argyfwng, blaenoriaethau adfer ac amserlen heriol.<br><br>Cafwyd Sesiwn Holi ac Ateb wedi hynny.<br><br>MH - Diolchodd i PM am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth. Awgrymwyd bod y Fforwm Mynediad Lleol yn cefnogi adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adfer yn dilyn storm.<br><br>Cytunodd y grŵp fod angen hyn, ac etholwyd yn unfrydol i gysylltu â Llywodraeth Cymru. Bydd Nodyn Cyngor yn cael ei gyhoeddi ar ôl yr etholiad fel yr awgrymwyd gan LG.<br><br>Gofynnwyd am rannu sleidiau'r ddau gyflwyniad.<br><br>Yn fwy cyffredinol:<br><br>Codwyd y mater o orblannu coed ar HTC ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru gan RL.<br><br>Drwy gael haen ffin Ystad Goetir Llywodraeth Cymru o Fap Data Cymru, gall y tîm Mynediad i Gefn Gwlad asesu gorblannu ar hawliau tramwy cyhoeddus. Trafod gyda PM am gynllun gweithredu/blaenoriaethu. | CF<br><br>CF |

| | |
|---|---|
| Cododd WO y mater o gau coedwigoedd dros dro – sut mae'r cyhoedd yn gwybod ymlaen llaw?<br><br>Dywedodd CF fod Gorchmynion Rheoleiddio Traffig dros dro yn cael eu cyhoeddi ar-lein a'i nodi ar CAMSWeb.<br><br>Dywedodd PM fod CNC yn defnyddio bancsmon ac arwyddion - mae arwyddion yn cael eu tynnu heb ganiatâd. | |
| **<u>Eitem 3 - Cyflwyniad Rheoli Mynediad i Diroedd Cyngor Sir Caerfyrddin</u>**<br><br>Gohiriwyd | |
| **<u>Eitem 4 – Cyflwyniad Rheoli Mynediad SUSTRANS</u>**<br><br>Gohiriwyd | |
| **<u>Eitem 5 – Y wybodaeth ddiweddaraf am Lwybr Dyffryn Tywi</u>**<br><br>Nid oes diweddariad ar gael gan Swyddog Prosiect Llwybr Dyffryn Tywi.<br><br>Rhoddodd PS ddiweddariad yn seiliedig ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol.<br><br>Cydnabyddir bod diffyg meinciau ond nid oes amserlen ar gyfer eu gosod.<br><br>Disgwylir i'r rhan rhwng Dryslwyn a Llanarthne agor cyn Hanner Tymor mis Hydref (2025).<br><br>Disgwylir i'r rhan rhwng Llanarthne a Nantgaredig agor ym mis Tachwedd (2025).<br><br>Disgwylir i'r rhan rhwng Gelli-aur a Llandeilo agor ym mis Ionawr (2026).<br><br>Gofynnodd MH a fydd unrhyw leoedd parcio penodol - nid oes unrhyw beth wedi'i gynnwys yn y cynllun ar gyfer darparu lleoedd parcio.<br><br>Cytunodd yr aelodau fod y sefyllfa bresennol o ran defnyddwyr y llwybr yn parcio ceir ar y ffordd yn beryglus. Hefyd, mae'r lleoedd lle nad yw rhwystrau wedi'u gosod ar gyffyrdd priffyrdd yn peri risg ddiangen i ddefnyddwyr y llwybr a defnyddwyr y ffordd.<br><br>Gorchwyl gwylio ar y pryder parhaus ynghylch parcio a'r angen posibl am argymhelliad i dawelu traffig.<br><br>Cafwyd ymholiad ynglŷn ag arwyddion rhybuddio 'beicwyr ar y ffordd'. Bydd CF yn trafod hyn gyda'r Swyddog Prosiect | CF |

| | |
|---|---|
| **Eitem 6 – DIWEDDARIAD YNGHYLCH PROSIECTAU HTC**<br><br>Rhoddodd AC gyflwyniad am y prosiectau cyfredol, gan amlinellu'r cynllunio a'r cynnydd ym mhob achos.<br><br>Roedd sleidiau'r cyflwyniad yn cynnwys mapiau o lwybrau prosiect mewn ymateb i adborth yng nghyfarfod blaenorol y Fforwm Mynediad Lleol.<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r grŵp am deithiau tywys mewn ardaloedd prosiect, a hyrwyddir ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cerddwyr Cymru.<br><br>Darparwyd Data hefyd o ran nifer y materion a ddatryswyd a'r celfi a osodwyd ar draws llwybrau'r prosiect.<br><br>Darparwyd diweddariad ar y prosiect arolygu gan wirfoddolwyr.<br><br>Bydd sleidiau'r cyflwyniad yn cael eu rhannu.<br><br>Gofynnodd SS a oes unrhyw gydweithio â grwpiau eraill megis BHS/TRF.<br><br>Mae TRF wedi ymgysylltu â CSC mewn cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd ynghylch cyllid/cydweithio yn y dyfodol.<br><br>Bydd AC yn cysylltu â SS ynghylch ymgysylltu â BHS | CF<br><br>AM |
| **Eitem 7 – ADRODDIADAU PERFFORMIAD HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS**<br><br>Mae aelodau'n falch o gael adroddiadau perfformiad chwarterol.<br><br>Darparodd RL anghysondebau a nodwyd yn y data a adroddwyd - nid yw ffigurau diwedd cyfnod bob amser yn cyfateb i ffigurau agoriadol yr adroddiadau canlynol. Bydd CF yn codi hyn gyda darparwr y feddalwedd.<br><br>Tynnodd JJ sylw at werth golwg hirdymor i nodi tueddiadau mewn rheoli HTC.<br><br>RL - unwaith y bydd blwyddyn lawn o adroddiadau wedi'u darparu, gall y Fforwm Mynediad Lleol ddechrau dadansoddi'r data i nodi materion a thueddiadau | CF |
| **Eitem 8 – TRETH DWRISTIAETH**<br><br>AM - os caiff treth ei gweithredu yn Sir Gaerfyrddin, bydd yn bwysig cael HTC yn ganolog i unrhyw refeniw a gynhyrchir. Bydd cefnogaeth y Fforwm Mynediad Lleol yn bwysig.<br><br>Datganodd MH fuddiant fel gweithredwr twristiaeth. Dywedwyd bod y diwydiant twristiaeth yn gwrthwynebu cyflwyno Treth Dwristiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Rhagwelir mai ymgynghori fydd y cam nesaf.<br><br>CF – angen cael trafodaeth â'r tîm Twristiaeth. | CF/AM |

| | |
|---|---|
| **Eitem 9 – CYSYLLTIAD GRID FFERMYDD GWYNT – EFFAITH AR FYNEDIAD**<br><br>Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygiadau ffermydd gwynt, nid y mater o ran cysylltiad grid.<br><br>Dywedodd TS wrth y grŵp fod ceisiadau cynllunio ffermydd gwynt bach yn dod i law, ac o ganlyniad nid yw effeithiau cronnol yn amlwg ac nid yw amddiffyniadau yn cael eu rhoi ar waith. Gofynnwyd pryd y gall y Fforwm Mynediad Lleol ymwneud â'r mater hwn.<br><br>Atgoffodd MH y grŵp fod y Fforwm Mynediad Lleol yn gorff ymgynghorol yn unig.<br><br>JG - Yn y cam ymgynghori gwirfoddol ar hyn o bryd, dim ond yn werth ymateb ar ôl i'r broses ffurfiol ddechrau.<br><br>Awgrymodd CF y byddai cysylltu â Llywodraeth Cymru yn gam cadarnhaol yn gynnar yn y broses gan fynegi diddordeb gan yr LAF i sicrhau ymgysylltiad.<br><br>Holodd WO sut y bydd HTC yn cael eu cynnal pan fydd llwybrau yn cael eu cynnig ar gyfer ffyrdd cludo ffermydd gwynt?<br><br>CF – bydd materion sy'n effeithio'n sylweddol ar HTC yn cael eu nodi yn ystod yr ymgynghoriad a bydd mesurau i gynnal mynediad yn cael eu harchwilio.<br><br>LG - ymddengys nad yw mynediad ar draws safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer ffermydd gwynt yn cael ei adfer yn dilyn difrod gan storm.<br><br>MH – ni dderbyniwyd ymateb gan Adam Price yn dilyn nodyn cyngor y Fforwm Mynediad Lleol ynghylch difrod gan storm. Dylid ail-anfon y Nodyn Cyngor at Cefin Cambell. Cytunodd aelodau'r fforwm.<br><br>JG – Nid yw ymgysylltu cymunedol wedi dechrau ym Mrechfa.<br><br>Nododd PS nad oedd aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn gwrthwynebu datblygiadau ffermydd gwynt yn unfrydol.<br><br>Awgrymodd LG y dylai CSC fanteisio ar y cyfleoedd a grëir gan fuddsoddi mewn ffermydd gwynt.<br><br>DG - bydd yn bwysig parhau i ymgysylltu cyn, yn ystod ac ar ôl datblygu.<br><br>RL – Mae angen bod yn ymwybodol o swyddogaeth y Fforwm Mynediad Lleol i gynghori ynghylch gwella mynediad i'r cyhoedd a dymunoldeb amddiffyn harddwch naturiol yr ardal.<br><br>Dywedodd PM wrth y grŵp y bydd Cais Cynllunio yn cynnwys Cynllun Rheoli Mynediad a bydd cyfle i ddylanwadu ar hyn. | MH / RL |

| | |
|---|---|
| **Eitem 10 – CILFFYRDD CYDWELI**<br><br>Gohiriwyd – i'w haildrefnu ar y cyd â chyfarfod nesaf y Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd. | CF |
| **Eitem 11 - Cynnal a Chadw Cilffyrdd CSC**<br><br>Gohiriwyd | |
| **Eitem 12 – CAMAU GWEITHREDU SY'N CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**<br><br>- Cynllun Adnoddau Coedwig Caio<br><br>Cafwyd adborth cadarnhaol o ran ymateb y Fforwm Mynediad Lleol - gwnaed gwelliannau a chydnabuwyd pryderon.<br><br>Ymateb gan CNC i'w rannu<br><br>- Cynllun Adnoddau Coedwig Llanymddyfri<br><br>Dim ymateb hyd yma, PM i fynd ar drywydd hyn ac edrych ar fformatio/testun safonol ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.<br><br>- Cyfrifoldebau Aelodau'r Cabinet<br><br>Aelodau'r Cabinet i ddarparu manylion portffolio<br><br>- Ymgysylltu â'r tîm marchnata<br><br>MH - dylid cyflwyno gwahoddiad penodol i annog aelod o dîm marchnata CSC i fynychu cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol | CF<br><br>PM<br><br>AVO/ET/<br><br>CF |
| **EITEM 13 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL**<br><br>- **Logo'r Fforwm Mynediad Lleol**<br><br>Logo a ffefrir wedi'i ddewis gan y grŵp - bydd MH yn danfon y dyluniad terfynol i CF i'w gyfieithu<br><br>- **Diwygio Bysiau Traws Cymru**<br><br>Gwneud bysiau yn hygyrch i feicwyr gyda mannau storio ar gyfer beiciau<br><br>- **Ail-frandio Sustrans** | MH |

| | |
|---|---|
| PS - Mae SUSTRANS bellach yn cael ei adnabod fel Wheel, Walk, Cycle Trust<br><br>Nododd LG nad yw'n ymddangos bod y sefydliad yn datblygu i fod yn gynhwysol i bawb, a yw'r fenter Llwybrau i Bawb yn dal yn uchelgais?<br><br>PS – dim ond newid enw, dim newid i'r weledigaeth.<br><br>- **Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru**<br><br>JS - bydd yn dod i rym cyn cyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol, mae cyfle i wella mynediad trwy rwymedigaethau'r cynllun<br><br>CF – bydd angen proses strwythuredig gyda RPW yn gorfodi'r agenda mynediad. Gwneud y cyswllt cyntaf â Thaliadau Gwledig Cymru. | CF |
| **<u>Eitem 13 – CYFARFOD NESAF</u>**<br><br>Dyddiad diwygiedig – 26 Ionawr - Caerfyrddin, 4pm<br><br>Bydd dyddiadau posibl ar gyfer Ebrill yn cael eu rhannu | MH |